2.69

# LLOFRUDDIAETH
# TEULU O SAITH

—***—

# CAN NEWYDD,

Sef, Hanes galarus am Lofruddiaeth Emmanuel Marshall, 35 oed, ei Fam, 77, ei Wraig, 32, ei Chwaer, 30, yn nghyd â thri o'i Blant, yn 4, 6, ac 8 oed, mewn pentref a elwir Denham, yn agos i Uxbridge, o fewn pumtheg milltir i Lundain, ar nos Sadwrn. yr 21ain o Fai, 1870.

MAE'R wlad i gyd mewn berw
Pan glywir son am ladd,
Brawychir y gwyr mawrion,
Y tlodion, a phob gradd;
Mae'r saeth yn cyrhaedd calon
Mam dyner am ei phlant,
Wrth feddwl fod un llofrudd
Yn dwyn eu bywyd bant.

Os mwrddrir *un* yn rhywle,
Fe glywir ochain blin,
A rhed y dagrau gloywon
Dros ruddiau llawer un;

Ond clywed am ddyhyryn
  Yn cym'ryd bywyd saith,
Sy'n gwneyd i'r byd yn gryno
  I dywallt dagrau llaith.

Ond *saith* a ga'dd eu mwrddro
  Un noswaith yn mis Mai,
Gan adyn llwyr ddideimlad,
  Er gofid i bob rhai,
Yn ymyl pentref Denham
  Gerllaw i Lundain fawr,
A'u darnio â gordd mae'n debyg
  Yn feirwon ar y llawr.

'Roedd gof o'r enw Marshall
  A'i wraig a'i blant ynghyd
Yn byw mewn anedd unig
  Gan ymdrech am y byd ;
Ni thybient fod un gelyn
  I'w gael o fewn y wlad,
Ond och ! fe gym'rwyd ymaith
  Y teulu oll mewn brad.

Yn farw yn yr efail
  Fe gafwyd corff y gwr,
A'i 'menydd wedi'i sathru
  O gylch y lle yn siwr ;
A'i wraig pan glywai'r ochain
  A ddaeth o'i gwely clyd,

X205205400

Ond hithau ga'dd ei tharo
  Ar d'rawiad maes o'r byd.

Yn nesaf mam i Marshall,
  Breswyliai yn y tŷ,
A gafwyd yn y gegin
  O dan ei chlwyfau du,
A thri o'r plant diniwed
  Yn gelain ar y llawr,
Yn myn'd trwy ddwylaw'r adyn
  I'r tragwyddolfyd mawr.

'Roedd hefyd chwaer i Marshall
  Yn aros gydag e',
Ar bwynt priodi dranoeth
  A bachgen o'r un lle;
Ond yn lle dydd llawenydd,
  Dydd galar ddaeth i'w rhan,
Ca'dd hithau ei llofruddio
  Yn greulon yn y fan.

O! olwg dorcalonus
  Tu hwnt darluniad iaith,
I wel'd y lladdfa greulon,
  A rhifo'r cyrff yn saith;
A golwg drist oedd gweled
  Eu claddu yr un dydd,
Y teulu oll yn gyfan
  I lawr i'w gwely pridd.

Mae dyn yn awr mewn dalfa,
  A chreda'r wlad i gyd
Mai ef yw'r llofrudd gwaedlyd
  A'u gyrai ffwrdd o'r byd,
Am dano 'roedd y dillad
  A wisgai'r gof ei hun,
A phrofion amlwg hefyd
  A dd'wedant—"Ti yw'r dyn."

Ond dydd y prawf sy'n agos
  I'w ddwyn i lys y wlad,
Pryd hyny ceir amlygrwydd
  Pwy fu mor llawn o frad;
Os euog, pawb sy'n gwybod,
  Caiff ddyoddef am y gwaith,
Ond hyn sydd iawn rhy fychan
  Am fyn'd â bywyd saith.

O! famau tyner-galon,
  Pa beth debygwch chwi
Pe lleddid plant eich mynwes
  Gan ryw ddyhyryn du;
Ond cwympwn bawb yn isel
  I lawr wrth orsedd gras,
I'n cadw yn ddiogel
  O ddwylaw llofrudd cas.